**Teitl: Bywyd ar ôl Marwolaeth**

| **Teitlau** | **Crefyddau'r Dwyrain** | **Dyneiddiaeth** | **Cristnogaeth ac Iddewiaeth** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am fywyd ar ôl marwolaeth yn y byd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd | | | |

| Teitlau | Crefyddau'r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | • Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt<br><br>**Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Crefyddau’r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Crefyddau’r Dwyrain - Bwdhaeth, Hindŵaeth a Sikhiaeth<br><br>Crefyddau’r Gorllewin – Cristnogaeth, Islam ag Iddewiaeth<br><br>Samsara – cylch bywyd, marwolaeth ac ail-eni<br><br>Nirfana/goleuedigaeth – cyrraedd y stad yma sy’n torri cylch samsara. Y Bwdha oedd yr un cyntaf i gyrraedd y cyflwr.<br><br>Karma - gweithredoedd person, da neu ddrwg, yn y bywyd cynt sy’n penderfynu ei ffurf yn y presennol<br><br>Enaid – rhan ysbrydol person neu anifail<br><br>Llwybr Wythplyg – y llwybr mewn Bwdhaeth i dorri cylch samsara a chyrraedd goleuedigaeth. Mae’n cynnwys wyth arferiad.<br><br>Llyfr Meirw Tibet - Llyfr sy’n arwain Bwdhyddion Tibetaidd | Agnostig - person sydd ddim yn siŵr a oes Duw neu beidio;<br><br>Anffyddiwr – person sy’n sicr nad oes yna Dduw;<br><br>Galaru – y teimlad o dristwch ar ôl colli rhywun agos;<br><br>Angladd – seremoni i gofio am y sawl a fu farw;<br><br>Teyrnged - geiriau i gofio'r sawl a fu farw;<br><br>Amlosgi – llosgi corff y sawl a fu farw;<br><br>Claddu – gosod corff y sawl a fu farw yn y ddaear;<br><br>Seciwlar – rhywbeth sydd ddim yn cynnwys elfennau crefyddol. | Croeshoeliad - Rhoddwyd Iesu ar y groes ac fe'i lladdwyd.<br><br>Tragwyddol - Am byth.<br><br>Genesis - Llyfr yn y Beibl.<br><br>Nefoedd - Ymuno â Duw ar ôl marwolaeth.<br><br>Uffern - Gwagle o unrhyw bresenoldeb Duw ar ôl marwolaeth.<br><br>Meseia - Ffigwr crefyddol pwysig yn dychwelyd.<br><br>Mitzvot - Rheolau.<br><br>Monotheistiaeth - Credu mewn un Duw yn unig.<br><br>Olam Ba-Ha - Y syniad o Nefoedd mewn Iddewiaeth.<br><br>Edifarhau - Gwneud iawn.<br><br>Atgyfodiad - Dod yn ôl yn fyw.<br><br>Sheol - Lleoliad lle credai Iddewon yr anfonir y meirw.<br><br>Cwestiwn eithaf - cwestiwn athronyddol mawr nad oedd ateb perffaith iddo. |


| Teitlau | Crefyddau’r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | trwy gyfnod y bardo – y cyfnod rhwng marwolaeth ac ail-eni.<br><br>Bardo – y cyfnodau rhwng marwolaeth ac ail-eni ym Mwdhaeth Tibet<br><br>Olwyn Fywyd Tibet – symbol o’r hyn mae Bwdhyddion yn ei gredu am gylch bodolaeth.<br><br>Bwdhaeth Terevada – Y traddodiad Bwdhaidd hynaf sy’n cael ei arfer yn bennaf mewn gwledydd fel Sri Lanka, Myanmar, Thailand, Cambodia, a Laos.<br><br>Bwdhaeth Mahayana – Yr ail brif draddodiad Bwdhaidd sy’n cael ei arfer yn bennaf mewn gwledydd fel Tseina, Tibet, Japan, a Korea.<br><br>Claddedigaeth awyr (sky-burial) – defod mewn Bwdhaeth Tibetaidd lle mae corff marw yn cael ei fwydo i fwlturiaid.<br><br>Ail-eni - y gred mewn Bwdhaeth bod ynni'r bywyd yma yn effeithio ar y nesaf. Nid yw’r Bwdhydd yn credu mewn enaid | | |

| Teitlau | Crefyddau’r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | ac felly mae’n wahanol i ymgnawdoliad.<br><br>Ail-genhedliad – y gred bod yr enaid yn symud i gorff newydd ar ôl marwolaeth<br><br>Atman – yr enaid mewn Hindŵaeth<br><br>Swarg - teyrnas debyg i nefoedd mewn Hindŵaeth<br><br>Narak – teyrnas tebyg i uffern mewn Hindŵaeth<br><br>Moksha – cyflwr mewn Hindŵaeth lle mae cylch samsara wedi ei dorri a’r enaid un ai wedi ail-ymuno â Brahman neu yn ei bresenoldeb fel duw personol.<br><br>Brahman – yr ysbryd goruchaf sydd ym mhopeth byw.<br><br>Dharma – dyletswydd mewn Hindŵaeth.<br><br>Waheguru – enw Duw mewn Sikhaeth<br><br>Mukti – y cyflwr mewn Sikhaeth o fod wedi torri cylch samsara | | |

| Teitlau | Crefyddau’r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | Atma – y sbarc dwyfol sydd ym mhopeth byw | | |
| **Geiriau chwilio** | Marwolaeth<br>Bywyd ar ôl marwolaeth<br>Crefydd<br>Bhagavad Gita<br>Enaid<br>Karma<br>Bwdhaeth<br>Hindŵaeth<br>Sikhaeth<br>Tibet<br>Ail-eni<br>Ail-ymgnawdoliad<br>Corff<br>Defodau angladdol | Dyneiddiaeth<br>Agnostig<br>Anffyddiwr<br>Angladd / Cynhebrwng<br>Galaru<br>Teyrnged<br>Amlosgi<br>Claddu<br>Seciwlar | Croeshoeliad<br>Tragwyddol<br>Genesis<br>Nefoedd<br>Uffern<br>Meseia<br>Mitzvot<br>Monotheistiaeth<br>Olam Ba-Ha<br>Edifarhau<br>Atgyfodiad<br>Sheol |

| Teitlau | Crefyddau'r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | Amlosgi<br><br>Gwasgaru llwch | | Cwestiwn eithaf |
| **Tasgau** ymestynnol | Hanfod pob un o'r crefyddau yw eu bod yn cynnig gobaith am fywyd gwell yn y dyfodol. I ba raddau mae hyn yn wir? A ydyw yr un mor berthnasol yn yr oes hon? | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Luniwch ddiagram Venn i ddangos yr hyn sy'n gyffredin a'r hyn sy'n wahanol rhwng credoau Bwdhaeth, Hindŵaeth a Sikhaeth am fywyd ar ôl marwolaeth.<br>2. Trafodwch: Pam yn eich barn chi bod cymaint o bobl yn credu bod bywyd ar ôl marwolaeth? A oes ystyr i'r bywyd yma os nad oes rhywbeth arall ar ôl marwolaeth?<br>3. Crewch flog yn pwyso a mesur y dystiolaeth honedig i fywyd ar ôl marwolaeth.<br>4. Trefnwch ddadl rhwng rhywun sydd yn argyhoeddedig bod | 1. Casglwch wybodaeth am rai o'r dyneiddwyr amlwg. Beth sydd wedi eu harwain ar y llwybr yma?<br>2. 'Nid yw dyneiddwyr yn credu mewn bywyd ar ôl marwolaeth felly nid oed ganddynt fawr ddim i'w gynnig yn y tymor hir.'<br>I ba raddau yr ydych yn cytuno fod hyn yn wir?<br>3. Mae dyneiddwyr yn rhoi pwyslais ar warchod yr amgylchfyd. Pa bethau ymarferol maent wedi ei wneud yn y maes yma?<br>4. Ceisiwch lunio trefn ar gyfer seremoni i gofio am rywun. Rhestrwch yr elfennau y byddech chi yn eu cynnwys.<br>5. Gwnewch fap i ddangos lle yng Nghymru mae safleoedd claddu naturiol tebyg i'r Goedlan Dragwyddol ym Moduan ger Pwllheli.<br>6. Gwyliwch y fideo sy'n dangos ymweliad Kate Humble â'r Goedlan Dragwyddol:<br>https://www.bbc.co.uk/programmes/p07l2117<br>Beth yw eich ymateb? | 1. Gwyliwch y fideo hwn o'r enwog Elizabeth Taylor yn siarad am ei phrofiad lle y bu bron â marw.<br>Wrth wylio, meddyliwch yn ôl am yr erthygl a myfyriwch ar eich credoau eich hun.<br>Ydych chi'n meddwl ei bod yn dweud y gwir?!<br>https://www.youtube.com/watch?v=NdZU2IpNpnE<br>2. O'r erthygl, rydych wedi dysgu am ddau set o gredoau am fywyd ar ôl marwolaeth. Ymchwiliwch i gred crefydd arall am fywyd tragwyddol.<br>3. Nodwch gredoau'r tair crefydd yn y diagram *venn*. Pa mor wahanol/tebyg ydyn nhw? Ceir templed ar y sleid nesaf. Mae dwy ffaith eisoes wedi'u gwneud i chi! |

| Teitlau | Crefyddau'r Dwyrain | Dyneiddiaeth | Cristnogaeth ac Iddewiaeth |
|---|---|---|---|
| | bywyd ar ôl marwolaeth a rhywun sydd yr un mor argyhoeddedig nad oes dim. | | |
| **Adnoddau pellach** | | | |


A. CRISTNOGAETH
B. IDDEWIAETH
A
B
Mae'r syniad o'r nefoedd a'r *Sheol* yn debyg.
Daw'r syniad o atgyfodiad Iesu
C
C. ____________________